

Y Bil Bwyd (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Mai 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7174**
E-bost: **Katy.Orford@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **[Cylchlythyr](https://www.gov.uk/government/organisations/senedd-cymru)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Bil Bwyd (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Mai 2023

Awdur:
Dr Katy Orford



Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r Bil Bwyd (Cymru) a'r gwaith craffu arno yn ystod Cyfnod 1 o'r broses ddeddfwriaethol.

Mae'r **Bil Bwyd (Cymru)** (y 'Bil') yn '**Fil Aelod**', a gyflwynir gan Peter Fox AS, Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli'r Ceidwadwyr, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Cyflwynwyd y **Bil** i'r Senedd ar 12 Rhagfyr 2022, gyda **Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol** yn cyd-fynd ag ef.

Cynhaliwyd y **Datganiad Deddfwriaethol** ar 14 Rhagfyr pan gyflwynodd Peter Fox AS y Bil, a thrafododd yr Aelodau ei gynigion yn y Cyfarfod Llawn am y tro cyntaf.

Nod y Bil yw darparu fframwaith cyffredinol newydd ar gyfer y system fwyd, gan integreiddio: ystyriaethau economaidd, iechyd a chymdeithasol, addysg, amgylcheddol a gwastraff bwyd. Byddai'n deddfu mewn tri phrif faes er mwyn:

- cyflwyno 'nodau bwyd': yn cynnwys 'nod bwyd sylfaenol' a 'nodau bwyd eilaidd' gyda thargedau;
- sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru i fonitro cynnydd, cynghori Gweinidogion Cymru a chynorthwyo cyrff cyhoeddus mewn perthynas â'u dyletswyddau o dan y Bil;
- ei gwneud yn ofynnol i lunio strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol.

Cafodd y Bil ei gyfeirio at **Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1**. Er bod y Pwyllgor yn cefnogi amcanion polisi'r Bil yn unfrydol, ni allai ddod i safbwynt unedig ar yr angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcanion hynny. Felly nid yw'n darparu argymhelliad i'r Senedd ynghylch a ddylai gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Bydd y Senedd yn trafod yr egwyddorion cyffredinol ac yn pleidleisio a yw'n cytuno arnynt ar 24 Mai 2023. Bydd hyn yn penderfynu a fydd y Bil yn symud ymlaen ymhellach.

Cynnwys

1. Y cefndir.....	1
Y Bil drafft	1
Polisi presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r system fwyd	1
2. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud	4
Yr amcanion polisi a nodwyd.....	4
Crynodeb o'r darpariaethau, fel y'u cyflwynwyd.....	4
Adrannau 1 i 3: nodau bwyd	4
Adrannau 4 i 7: targedau bwyd	5
Adrannau 8 i 16: Comisiwn Bwyd Cymru	5
Adrannau 12 i 16: y strategaeth fwyd genedlaethol.....	5
Adrannau 17 i 21: Cynlluniau bwyd lleol.....	6
Adrannau 22 i 26: darpariaethau cyffredinol	6
Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.....	7
3. Gwaith craffu Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil.....	8
Yr achos dros ddeddfwriaeth	8
Nodau bwyd.....	11
Targedau bwyd.....	13

Comisiwn Bwyd Cymru	14
Yr achos dros Gomisiwn Bwyd Cymru	14
Swyddogaethau'r Comisiwn	15
Model Comisiynydd Bwyd neu fodel cadeirydd a bwrdd	16
Aelodaeth	16
Strategaeth fwyd genedlaethol.....	18
Cynlluniau bwyd lleol.....	19
4. Gwaith craffu gan bwyllgorau eraill y Senedd.....	22
Y Pwyllgor Cyllid	22
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad	22
5. Y camau nesaf	24

1. Y cefndir

Y Bil drafft

Roedd Peter Fox AS yn llwyddiannus yn y balot Bil Aelod ym mis Medi 2021 a chaffod ei gynnig ar gyfer y Bil ganiatâd y Senedd i fwrw ymlaen ar **17 Tachwedd 2021**.

Cynhaliodd Peter Fox AS ymgynghoriad ar ei gynigion gyda **Bil drafft**. Cafodd 49 o ymatebion gan sefydliadau ac unigolion sydd wedi'u **cyhoeddi** a'u **crynhai**.

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at gefnogaeth i brif nodweddion y Bil drafft.

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo nad yw polisi presennol Llywodraeth Cymru ar fwyd yn ddigon cydgysylltiedig, ac roeddent yn cefnogi'r angen am un dull cyfannol cyffredinol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru.

Polisi presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r system fwyd

Mae gan Lywodraeth Cymru ystod o bolisiau sy'n berthnasol i'r system fwyd, yn rhychwantu adrannau amrywiol. Mae **llythyr gan Lywodraeth Cymru** at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (y 'Pwyllgor') yn dangos yr amrywiaeth o bolisiau sydd ganddi, neu y mae'n eu datblygu. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn darparu crynodeb o ddeddfwriaeth a pholisi presennol sy'n berthnasol i fwyd (o dudalen 4). Nodir rhai o'r polisiau/cyfreithiau perthnasol hyn isod:

- Mae **Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021** yn gosod gweledigaeth a chenhadaeth sy'n canolbwyntio ar dwf busnes a'r nod yw bod o fudd i bobl a chymdeithas ar yr un pryd;
- Mae **Llywodraeth Cymru yn dweud** bod bwyd o fewn cwmpas y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol o dan y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru)** ac **Egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru**;
- Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu **Strategaeth Bwyd Cymunedol** gyda gweledigaeth i gefnogi mentrau cymunedol sy'n datblygu cyfleoedd ar gyfer bwyd a gynhyrchir yn lleol;
- Mae strategaeth **Pwysau Iach: Cymru Iach** (2019) yn cynnwys ymrwymiad y bydd gan Gymru, erbyn 2030, "amgylcheddau bwyd lle mae bwyd a diod iachach ar gael yn eang, sy'n ddeniadol ac yn fforddiadwy, gan wneud y dewis iachach yn ddewis hawdd".

- **Cymru Iachach** (2018) yw cynllun iechyd a gofal cymdeithasol tymor hir Llywodraeth Cymru. Mae'n pwysleisio "effaith 'ffactorau bywyd' fel peidio smygu, osgoi goryfed, cadw at bwysau iach, deiet da ac ymarfer corff";
- Mae'r **Cytundeb Cydweithio** rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn ymrwymo bod holl ddisgyblion cynradd yn cael **prydau ysgol am ddim erbyn 2024**;
- Mae'r **Cwricwlwm newydd i Gymru** wedi'i gyflwyno mewn ysgolion cynradd a disgwylir iddo gael ei gyflwyno i'r holl grwpiau blwyddyn uwchradd erbyn 2026/27;
- Byddai'r **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** a'r **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** arfaethedig yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer cymorth amaethyddol ar sail 'Rheoli Tir yn Gynaliadwy';
- Nod **Cynllun Sero Net Llywodraeth Cymru** yw cyflawni carbon sero net erbyn 2050;
- Cyflwynodd **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yr **egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a dyletswydd bioamrywiaeth**, a nodir strategaethau i warchod natur yn y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur**;
- Mae'r **Strategaeth Mwy Nag Ailgylchu** yn ymrwymo i ddileu'r holl wastraff bwyd y gellir ei osgoi drwy weithio gyda chynhyrchwyr a phroseswyr bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, i gyfyngu ar wastraff bwyd ym mhob lleoliad. Mae'r strategaeth yn gosod targed i haneru gwastraff bwyd y gellir ei osgoi erbyn 2025, a'i ostwng 60 y cant erbyn 2030;
- Yn gyffredinol, mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Deddf LICD) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Wrth gyflwyno'r Bil, **dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (y 'Gweinidog')** fod y Bil yn ddiangen ac y bydd yn tynnu sylw ac yn ychwanegu cymhlethdod, gan gyfeirio at bolisiau bwyd sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n datblygu. Yn benodol, dadleuodd y canlynol:

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eisoes yn darparu fframwaith a sylfaen ar gyfer polisiau integredig cyfannol sy'n canolbwyntio ar y budd hirdymor i ddinasyddion a chymdeithas.

Fodd bynnag, tynnodd ymatebwyr i'r Bil drafft sylw at ddiffyg cydlyniaeth ym mholisi Llywodraeth Cymru. **Dywedodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru** y canlynol:

A key reason why this Bill is important is because to date policy incoherence has often led to mixed messages, missed opportunities and contradictory approaches. For Example the strategic direction of growth and industrialisation of the food manufacturing sector versus

a clear policy direction of 'sustainable agriculture'; Minimum alcohol pricing as part of the Public Health (Wales) Act vs Welsh Government's Drink Strategy; planning policies that allow farms to pollute water courses whilst assets key to building food security (whether land or infrastructure) held in public ownership are lost to other sectors; and missed opportunities to connect Welsh Government's Food and Drink Retail Plan with opportunities within the Healthy Weight Healthy Wales (obesity strategy) - in particular around ambitions for a Healthy Food Environment.

Codwyd y diffyg cydlyniaeth polisi bwyd yn y Bumed Senedd gan y **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a gyhoeddodd ddau adroddiad ar 'Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru'** (2018 a 2019). Yn ôl Casgliad 2 o'r adroddiad ar gaffael cyhoeddus yn 2018:

Mae angen strategaeth newydd gyffredinol ar ôl Brexit sy'n ystyried y system gyfan. Dylai'r strategaeth gael ei hategu gan amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a dylid llunio cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r strategaeth, gan gynnwys mesurau a thargedau.

2. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud

Nod y Bil yw sefydlu fframwaith newydd i gydgysylltu elfennau gwahanol o'r system fwyd a darparu goruchwyliaeth ac atebolrwydd gwell.

Yr amcanion polisi a nodwyd

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi amcanion polisi'r Bil:

... mae'r Bil yn ceisio datblygu fframwaith cyfannol, cydlynol ar gyfer datblygu polisi bwyd yn y dyfodol drwy ddileu'r polisi seilos presennol. Bydd yn llwyfan ar gyfer cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus a llunwyr polisi, yn ogystal â dod â chynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr at ei gilydd. Wrth wneud hynny, mae'r Bil hefyd yn ceisio sicrhau bod polisiau'n ystyried sut y gall y system fwyd ymateb i rai o heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol Cymru.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cysylltu'r Bil â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf LICD'), gan ddweud y bydd yn helpu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i gyflawni'r dyletswyddau a amlinellir yn y Ddeddf honno:

Bydd nodau darpariaethau yn y Bil yn canolbwyntio ar gyflawni'r saith nod llesiant, a byddant yn defnyddio'r Ddeddf i hwyluso dull mwy cydlynol o ddatblygu polisi bwyd yng Nghymru.

Crynodeb o'r darpariaethau, fel y'u cyflwynwyd

Adrannau 1 i 3: nodau bwyd

Mae adran 1 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd.

Mae adran 2 yn gosod y nod bwyd sylfaenol – "darparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl Cymru".

Mae adran 3 yn nodi nodau bwyd eilaidd gyda disgrifiadau o dan y penawdau: llesiant economaidd; iechyd a chymdeithasol; addysg; yr amgylchedd; a gwastraff bwyd. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r disgrifiadau ar ôl ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru.

Adrannau 4 i 7: targedau bwyd

Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau ar gyfer pob un o'r nodau bwyd eilaidd a hynny cyn pen dwy flynedd i'r adran hon ddod i rym (sef tri mis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol). Mae'n rhaid iddynt osod safon fesuradwy a dyddiad targed.

Mae adrannau 5 i 7 yn sefydlu'r broses o osod targedau, y ddyletswydd i osod dyddiad adrodd targed a phroses adolygu (mae'n rhaid cwblhau'r adolygiad cyntaf o fewn pum mlynedd i'r adran hon ddod i rym).

Adrannau 8 i 16: Comisiwn Bwyd Cymru

Mae adran 8 yn sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru.

Mae adran 9 yn gosod amcanion y Comisiwn - hybu a hwyluso cyflawni'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd / targedau gan gyrff cyhoeddus.

Mae adran 10 yn sefydlu swyddogaethau'r Comisiwn gan gynnwys: datblygu a chynghori ar bolisiau bwyd, a goruchwyllo / adolygu nodau a thargedau bwyd sy'n gysylltiedig â swyddogaethau cyrff cyhoeddus.

Mae adran 11 yn cyflwyno'r Atodlen sy'n manylu ar weithrediad y Comisiwn, gan gynnwys statws, aelodaeth, tâl, staff, prosesau mewnol, cyllid, adroddiadau a chyfrifon y Comisiwn. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd wrth benodi'r cadeirydd a'r aelodau.

Adrannau 12 i 16: y strategaeth fwyd genedlaethol

Mae adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio strategaeth fwyd genedlaethol, gan gynnwys polisiau sy'n hyrwyddo'r nodau sylfaenol ac eilaidd, cyn pen dwy flynedd i'r adran hon ddod i rym (sef tri mis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol).

Mae adran 13 yn sefydlu'r broses ar gyfer gwneud strategaeth. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor y Comisiwn a chânt geisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n rhaid iddynt ymgynghori ag arbenigwyr annibynnol / personau priodol eraill a rhoi sylw i offerynnau rhyngwladol amrywiol, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae adran 14 yn disgrifio effaith y strategaeth. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r strategaeth fwyd wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â nodau a thargedau bwyd.

Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar effeithiolrwydd y strategaeth fwyd genedlaethol ('cyn gynted ag y bo'n ymarferol' ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth).

Mae adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth fwyd genedlaethol bob pum mlynedd a'i diwygio fel y maent yn ystyried yn briodol.

Adrannau 17 i 21: Cynlluniau bwyd lleol

Mae adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus (awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ond *nid* Gweinidogion Cymru) wneud cynllun bwyd lleol cyn pen dwy flynedd i'r adran hon ddod i rym (sef tri mis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol).

Mae adran 18 yn sefydlu'r broses. Caiff cyrfff cyhoeddus ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a phersonau priodol eraill ac mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r strategaeth fwyd genedlaethol.

Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw i'w cynllun bwyd wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r nodau a thargedau bwyd.

Mae adrannau 20 ac 21 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd ar effeithiolrwydd y cynlluniau bwyd lleol ('cyn gynted ag y bo'n ymarferol' ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r cynlluniau lleol) ac adolygu eu cynlluniau bob pum mlynedd, a'u diwygio fel y maent yn ystyried yn briodol.

Adrannau 22 i 26: darpariaethau cyffredinol

Mae adran 22 yn diffinio 'corff cyhoeddus' fel Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr hon ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn a phersonau priodol eraill, ond ni chânt ddileu eu hunain. Mae'n rhaid i bersonau a ychwanegir arfer "swyddogaethau o natur gyhoeddus" ac mae'n rhaid ymgynghori â phersonau o'r fath cyn eu hychwanegu.

Mae adran 23 yn cadarnhau bod y pwerau gwneud rheoliadau yn arferadwy drwy offeryn statudol, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae adrannau 24 i 26 yn darparu ar gyfer dehongli, cychwyn (3 mis yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol) a'r enw byr.

Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif costau dros gyfnod o bum mlynedd gan ddefnyddio blwyddyn sail brisiau 2022-23 mewn ystod (isel i uchel). Dadansoddir cyfanswm y costau amcangyfrifedig pum mlynedd fel a ganlyn:

- Trosiannol: £1.2 miliwn i £1.7 miliwn
- Rheolaidd: £3.6 miliwn i £7 miliwn.
- Cyfanswm: £4.8 miliwn i £8.7 miliwn.
- Gwerth presennol net (gostyngol i brisiau 2022-23): £4.51 miliwn i £8.11 miliwn.

Amcangyfrifir cyfanswm costau Comisiwn Bwyd Cymru dros bum mlynedd rhwng £3.75 miliwn a £7.5 miliwn. Amcangyfrifir mai rhwng £905,000 ac £1.01 miliwn dros bum mlynedd yw'r costau i gyrff cyhoeddus (byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol) ar gyfer drafftio cynlluniau bwyd lleol ac adrodd arnynt.

3. Gwaith craffu Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil

Rhoddwyd cylch gorchwyl y Bil i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') y Senedd ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Gwnaeth y **Pwyllgor**:

- lansio **ymgyngoriad cyhoeddus** ar y Bil a ddaeth i ben ar 27 Ionawr 2023; cafwyd 29 o ymatebion;
- cynnal **sesiwn dystiolaeth gychwynnol gyda Peter Fox AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol** ar 19 Ionawr;
- clywed gan **amrywiaeth o randdeiliaid**: academyddion, ymgyrchwyr bwyd cynaliadwy, rheolwyr tir, cynrychiolwyr y diwydiant bwyd, a chynrychiolwyr ieuchyd ac addysg;
- cynnal **sesiwn gyda'r Gweinidog** ar 1 Mawrth;
- cynnal **sesiwn olaf gyda Peter Fox AS** ar 8 Mawrth.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o'r dystiolaeth, yn ogystal â barn ac argymhellion y Pwyllgor.

Er bod y Pwyllgor yn cefnogi amcanion polisi'r Bil yn unfrydol, ni allai ddod i safbwynt unedig ar yr angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcanion hynny. Y Senedd fydd yn penderfynu a yw'n cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn ystod y ddadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn.

Mae'r adrannau isod yn crynhoi'r dystiolaeth allweddol a gafwyd yn ystod Cyfnod 1 a chasgliadau'r Pwyllgor.

Yr achos dros ddeddfwriaeth

Roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo bod y Bil yn angenrheidiol

Fel gyda'r ymgyngoriad ar y Bil drafft, canfu'r Pwyllgor fod y prif ddadleuon ar gyfer y Bil yn ymwneud â goruchwyliaeth a chydlyniant gwell ar draws polisiau bwyd Llywodraeth Cymru, atebolrwydd, a gweithredu polisi'n effeithiol, a hynny'n genedlaethol ac yn lleol.

Cafwyd cefnogaeth gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys yr undebau ffermio, sefydliadau amgylcheddol, grwpiau lles anifeiliaid, academyddion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae'r canlyniadau roeddent am eu gweld yn cynnwys gwella'r canlynol:

- diogeledd bwyd;
- caffael cyhoeddus;
- lles anifeiliaid;
- diogelu'r amgylchedd ac adferiad amgylcheddol (natur a'r hinsawdd);
- twf economaidd;
- addysg ar faterion yn ymwneud â bwyd;
- fforddiadwyedd bwyd;
- cydraddoldeb o ran mynediad at fwyd maethlon a llai o ordewdra;
- cyfraniad cymunedau.

Awdurdodau lleol yn poeni am adnoddau

Er eu bod yn gefnogol, roedd rhai awdurdodau lleol yn pryderu am oblygiadau'r Bil o ran adnoddau, gan ddweud y byddai angen ei gyflwyno'n raddol, oherwydd yr ystod o gyfrifoldebau newydd a roddir i lywodraeth leol.

Rhybuddiodd nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus y byddai angen adnoddau ychwanegol i gefnogi gweithrediad y Bil. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) "Gydag unrhyw ddyletswydd newydd sy'n cael ei roi ar gynghorau, byddai rhaid i hwn yn cael ei ariannu'n gywir a ni ddisgwylir ei gymhwyso o fewn y cyllidebau presennol." Cododd Estyn bryderon ynghylch pasio cost gweithredu'r Bil ymlaen i ysgolion, gan ddweud y bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn darparu digon o gymorth ariannol i'r Bil fel nad oes effaith andwyol ar wariant craidd ar addysg.

Pwysleisiodd Cyngor Abertawe a Chyngor Sir Fynwy fod rhai ysgolion cynradd eisoes yn cael trafferth talu'r gost ychwanegol sy'n cael ei chreu drwy gyflwyno pryddau ysgol gynradd am ddim.

Gwnaeth nifer o randdeiliaid y ddadl 'buddsoddi i arbed'

Dywedodd Simon Wright (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Wright's Food Emporium) a'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur y bydd dull y Bil yn arbed arian

yn y tymor hir drwy welliannau i iechyd pobl a'r amgylchedd. Roedd Cymdeithas Ddeieteg Prydain yn gobeithio y byddai'r Bil yn gwella o ran dosbarthu cyllid yn gyfartal.

Nid oedd rhai'n cefnogi'r angen am ddeddfwriaeth

Nid oedd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru o'r farn bod angen deddfwriaeth, gan ddadlau y gallai gyflwyno cymhlethdod a biwrocraatiaeth ddiangen a rhwystro arloesedd. Roedd yn teimlo y gellid cyflawni nod bwyd sylfaenol y Bil heb ddeddfwriaeth.

Roedd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn cefnogi nodau'r Bil i gydgysylltu polisiau bwyd, ond nid oedd yn credu mai deddfwriaeth oedd y dull gorau. Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru, yn gyntaf, asesu i ba raddau y mae ei hadrannau'n cyflawni yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt cyn mynd ati i gyflwyno Bil.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddi gynnal yr ymarfer hwn (yn seiliedig ar gyflawni nodau bwyd eilaidd y Bil). Mae **ymateb Llywodraeth Cymru** yn rhestru ei pholisiau wrth ymyl y nodau bwyd eilaidd. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn teimlo y gall cyhoeddi dogfen fel hon a'i diweddarau'n rheolaidd helpu'r Pwyllgor a rhanddeiliaid i ddeall yn well sut y mae polisi bwyd Llywodraeth Cymru yn gyson a gwella gweithrediad polisi.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi'r Bil

Dadleuodd y Gweinidog fod y Bil yn ychwanegu cymhlethdod a chostau diangen. Honnodd nad yw'n datrys y materion sydd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod Deddf LCD eisoes yn darparu lens i edrych ar faterion sy'n gysylltiedig â bwyd a bod y Bil yn tanseilio'r dull hwnnw.

Dywedodd y Gweinidog fod cefnogaeth i'r Bil gan rhanddeiliaid o ganlyniad i'r canfyddiad nad oedd polisi Llywodraeth Cymru yn gydgysylltiedig, a'i bod am fynd ar drywydd hynny.

Barn y Pwyllgor

Er bod y Pwyllgor yn cefnogi amcanion polisi'r Bil yn unfrydol, ni allai ddod i safbwynt unedig ar yr angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcanion hynny. Y Senedd fydd yn penderfynu a yw'n cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn ystod y ddadl Cyfnod 1.

Roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru wella ei dull o ymdrin â'r system fwyd drwy sicrhau bod polisiau'n gydgyssylltiedig ac yn cyd-fynd. Gallai hyn naill ai fod drwy'r Bil hwn neu drwy ddulliau anneddfwriaethol. Os bydd y Bil yn methu, argymhellodd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio pa elfennau o'r Bil y gallai eu cyflwyno drwy lwybr anneddfwriaethol.

Nodau bwyd

Roedd llawer yn cefnogi cynnwys nodau bwyd, gan ddarparu awgrymiadau i'w gwella.

Dyma ychydig o enghreifftiau:

- Awgrymodd RSPCA Cymru y dylid cynnwys nod ar les anifeiliaid;
- awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg nod ar gynnal a hybu'r defnydd o'r Gymraeg;
- gwnaeth sefydliadau amgylcheddol awgrymiadau ynghylch cryfhau agweddau amgylcheddol ar y nodau;
- Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru eisiau darpariaethau mwy penodol ynghylch caffael cyhoeddus a chynhyrchu bwyd;
- Galwodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am sôn yn benodol am fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd;
- roedd sawl un yn cefnogi nodau bwyd eilaidd arfaethedig Cynghrair Polisi Bwyd Cymru y bwriedir iddynt fod yn llai sectoraidd, ac sy'n cynnwys: bwyd i bawb, bwyd er budd iechyd y cyhoedd, system fwyd sero net, ffermio er budd natur a'r hinsawdd, caffael bwyd yn gynaliadwy, swyddi a bywoliaethau cynaliadwy yn y sector bwyd.

Tynnodd Undeb Amaethwyr Cymru sylw at natur wrthwynebol bosibl y nodau:

"To have healthy, economically, environmentally and socially sustainable food that is also affordable for the consumer is obviously challenging."

Nododd sawl rhanddeiliad y dylid rhoi'r un pwys i'r nodau eilaidd (yn hytrach na hierarchaeth). Dywedodd Cymdeithas y Pridd y dylid cymryd nodau bwyd eilaidd gyda'i gilydd a'u cyflawni mewn ffordd integredig a chytbwys er mwyn osgoi blaenoriaethu detholus. Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Estyn y gallai canllawiau helpu o ran dehongli'r nodau a helpu i reoli gwrthdaro. Pwysleisiodd Peter Fox AS y dylid ystyried y nodau bwyd eilaidd yn gyfartal.

Galwodd RSPB Cymru am ofyniad ymgynghori cryfach i Weinidogion wrth ddiwygio'r disgrifiadau o nodau bwyd eilaidd drwy reoliadau (gyda phersonau ag arbenigedd annibynnol a pherthnasol).

Roedd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru o'r farn bod y nodau'n aneglur, a galwodd am amcanion i feithrin gweledigaeth o'r hyn y dylid ei gyflawni ymhen 5-10 mlynedd.

Dywedodd y Gweinidog nad yw'r berthynas rhwng y nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd yn glir a bod "Llywodraeth Cymru eisoes yn mynd ar drywydd polisiau amrywiol sy'n berthnasol i gyflawni'r nodau eilaidd. Mae gan y polisiau hyn dargedau a dangosyddion penodol, neu maent yn ymrwymo i'w creu."

Barn y Pwyllgor

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi cynnwys y nodau bwyd yn y Bil. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n teimlo y gallent fod yn fwy cyson ac roeddent yn rhannu pryderon bod y nodau eilaidd yn rhy sectoraidd. Cefnogodd awgrym Cynghrair Polisi Bwyd Cymru, sef nodau llai sectoraidd.

Os bydd y Bil yn methu, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi dogfen sy'n nodi ei holl bolisiau bwyd, ar draws adrannau, a sut y mae'r rhain yn gyson â'i phrif amcanion cyffredinol. Dywedodd y dylai'r ddogfen hon gael ei diweddarau'n rheolaidd.

Targedau bwyd

Roedd mwyafrif y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor yn cefnogi cynnwys targedau bwyd yn y Bil.

Dywedodd rhai y gallai'r Bil achosi anghysondeb a dryswch gyda thargedau presennol. Dywedodd eraill y byddai'r Bil yn cydgrynhoi targedau ac yn ychwanegu eglurder er mwyn osgoi anghysondeb ar draws polisiau gwahanol.

Dywedodd yr undebau ffermio wrth y Pwyllgor fod angen targedau er mwyn gallu mesur cynnydd tuag at y nodau. Fodd bynnag, pwysleisiodd Undeb Amaethwyr Cymru fod yn rhaid i'r targedau beidio â chreu biwrocratiaeth ychwanegol neu ofynion beichus i ffermwyr neu fusnesau eraill ym mhob rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Awgrymodd rhai y gallai'r Bil ddyrchafu rhai targedau presennol i statws statudol er mwyn sicrhau atebolrwydd gwell.

Hoffai rhai i'r gofyniad am dargedau penodol fod ar wyneb y Bil – awgrymodd RSPB Cymru, Maint Cymru, Cymdeithas y Pridd dargedau bioamrywiaeth a newid hinsawdd i sicrhau statws cyfartal.

Roedd Cymdeithas Ddeieteg Prydain yn pryderu nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer targedau uchelgeisiol, gan gyfeirio at adran 5(2) sy'n pwysleisio y dylent fod yn rhai y gellir eu cyflawni. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai'r targedu ei gwneud yn ofynnol cyrraedd safon ofynnol fel nad yw'n cyfyngu ar uchelgais, gyda chymhellion i'r rhai sy'n perfformio'n well.

Galwodd yr undebau ffermio a'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur am amserlen adrodd fyrrach. Esboniodd Undeb Amaethwyr Cymru y gallai adrodd yn flynyddol fod yn well oherwydd bod cadwyni cyflenwi bwyd yn hynod sensitif i ddigwyddiadau byd-eang.

Roedd galwad gref hefyd gan y sector amaethyddol am gyfnod adolygu byrrach. Awgrymodd yr undebau ffermio, y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur a Hybu Cig Cymru oll fod pum mlynedd yn rhy hir.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod yr amserlenni ar gyfer gosod targedau ac adrodd arnynt yn anhyblyg ac yn heriol. Esboniodd y byddai'n rhaid gosod targed, adrodd, ac adolygu gweithgareddau. Roedd yn credu y byddai'n anodd i'r Llywodraeth, ond y byddai'n anodd iawn i gyrff cyhoeddus eraill gyd-fynd â'r amserlen hon.

Barn y Pwyllgor

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi cynnwys targedau yn y Bil i ysgogi cynnydd yn y system fwyd. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig bod yn rhaid i dargedau a osodir fod â mecanwaith cryf ar gyfer gwerthuso i fesur cynnydd.

Roedd yr Aelodau'n fodlon bod y dull a'r amserlen a awgrymwyd ar gyfer gosod ac adolygu targedau yn y Bil yn briodol.

Os bydd y Bil yn methu, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer dadansoddi bylchau o'r targedau presennol sy'n berthnasol i'r system fwyd ac, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gyflwyno targedau newydd i lenwi bylchau.

Comisiwn Bwyd Cymru

Yr achos dros Gomisiwn Bwyd Cymru

Roedd llawer ohonynt yn cefnogi sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru â'r adnoddau digonol

Er mwyn osgoi dyblygu, tynnodd sawl un sylw at yr angen i'r Comisiwn Bwyd gydweithio â'r Comisiynwyr presennol, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiynydd Plant.

Roedd eraill, gan gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Abertawe, yn teimlo y gallai swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ymdrin â'r swyddogaethau arfaethedig.

Pan ofynnwyd iddo a allai swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu llwybr cyflym i gyflawni rhai o nodau'r Bil, **dywedodd** Peter Fox AS wrth y Pwyllgor ei fod wedi siarad â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol blaenorol a bod y Comisiynydd, bryd hynny, yn teimlo nad dyna'r ffordd gywir ymlaen. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud bod comisiynydd newydd erbyn hyn, ac nad oes dim yn atal pobl rhag ystyried cryfhau Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, o bosibl, i wneud rhywfaint o hyn. Fodd bynnag, dywedodd ei fod yn teimlo bod ei Fil ef yn ateb gwell yn y pen draw.

Tynnodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru a Ffederasiwn Bwyd a Diod

Cymru sylw at orgyffwrdd posibl â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a dywedodd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru fod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru eisoes yn cyflawni rhai o swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn Bwyd.

Roedd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru yn pryderu y byddai'n cymryd amser hir i sefydlu'r Comisiwn Bwyd.

Nid oedd y Gweinidog yn cefnogi Comisiwn Bwyd Cymru, ond dywedodd y byddai'n ystyried sefydlu bwrdd mewnol i gydgyssylltu polisiau bwyd ar draws adrannau.

Pwysleisiodd y byddai'r dull anneddfwriaethol hwn yn rhatach, yn gyflymach, ac yn hyblycach.

Roedd y Gweinidog yn pryderu am gost Comisiwn Bwyd Cymru, a'r gorgyffwrdd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. **Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor DCC**, dadleuodd Peter Fox AS fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn canolbwyntio ar ddiogelwch a safonau bwyd.

Swyddogaethau'r Comisiwn

Roedd llawer yn cefnogi rôl i'r Comisiwn Bwyd ddarparu goruchwyliaeth o bolisi bwyd, cynghori Gweinidogion ar y nodau bwyd, targedau a strategaeth genedlaethol a chefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn gyson.

Awgrymodd sawl un y dylai'r Comisiwn Bwyd fod â rôl gryfach o ran datblygu'r strategaeth genedlaethol (e.e. dywedodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru y dylai arwain ar y strategaeth a darparu drafft i'r Gweinidogion ei gymeradwyo). Roedd llawer yn credu mai'r Gweinidogion a ddylai fod yn atebol.

Galwodd Cymdeithas y Pridd i'r Comisiwn Bwyd wneud gwaith cynllunio strategol, gan asesu effaith bosibl risgiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n dod i'r amlwg a chyfleodd i gyflawni'r nod bwyd sylfaenol.

Roedd Sustain a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am i'r rôl gael ei hehangu i fonitro polisiau bwyd y DU a rhai rhyngwladol, a chysylltiadau masnachol sy'n effeithio ar system fwyd Cymru.

Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod perygl y gallai amser y Comisiwn Bwyd gael ei ddefnyddio i fonitro'r cynlluniau bwyd lleol a galwodd iddo gael cyrhaeddiad ehangach.

Model Comisiynydd Bwyd neu fodel cadeirydd a bwrdd

Roedd nifer o randdeiliaid eisiau Comisiynydd Bwyd pwrpasol (yn hytrach na model cadeirydd a bwrdd a gynigir yn y Bil).

Dadleuodd sawl y byddai Comisiynydd Bwyd yn darparu arweinydd ac yn dyrchafu materion polisi bwyd. Roedd Synnwyr Bwyd Cymru a'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur o'r farn y gallai Comisiynydd lywio'r broses o integreiddio polisiau sy'n ymwneud â bwyd ar draws y llywodraeth.

Esboniodd Peter Fox AS y rhesymeg dros strwythur y Comisiwn, gan ddweud bod angen cadeirydd a bwrdd, yn hytrach na chomisiynydd unigol, er mwyn cael yr arbenigedd amrywiol sydd ei angen yn rôl y Comisiwn.

Aelodaeth

Neges allweddol gan randdeiliaid oedd y dylid sicrhau bod gan y Comisiwn Bwyd aelodaeth ac arbenigedd priodol.

Galwodd y mwyafrif am aelodaeth eang a chynhwysol yn cynrychioli'r holl nodau bwyd eilaidd o bob rhan o'r system fwyd.

Roedd rhai'n pryderu efallai na fyddai'r broses arfaethedig ar gyfer dethol aelodau'n creu Comisiwn Bwyd digon annibynnol a chynrychioliadol.

Barn y Pwyllgor

Ni allai'r Pwyllgor gytuno ar y gofyniad am Comisiwn Bwyd Cymru, na'i ddyluniad, felly ni fydd yn gwneud argymhelliad ynghylch ei sefydlu na'i gyfansoddiad. Fodd bynnag, cytunodd yr Aelodau, os bydd Comisiwn yn cael ei sefydlu, fod yn rhaid iddo feddu ar ystod eang o arbenigedd sy'n berthnasol i'r nodau bwyd.

Cytunodd y Pwyllgor y gallai fod yn fuddiol i'r Comisiwn, os bydd yn cael ei sefydlu, ymgymryd â swyddogaethau penodol eraill i'r rhai a nodir yn y Bil. Er enghraifft, monitro polisi bwyd a pherthnasoedd masnachu yn y DU ac yn rhyngwladol. Argymhellodd y Pwyllgor, os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen, y dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, ystyried pa swyddogaethau ychwanegol y gall fod yn fuddiol eu cynnwys yn ei gylch gorchwyl.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y Gweinidog yn dweud ei bod yn fodlon ystyried sefydlu bwrdd polisi bwyd mewnol, neu gamau tebyg, i wella'r cydgysylltu ar draws polisïau ac adrannau.

Os bydd y Bil yn methu, trafododd yr Aelodau ddau opsiwn - y bwrdd mewnol fel yr awgrymodd y Gweinidog, neu greu swydd systemau bwyd bwrpasol yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylai'r bwrdd mewnol neu ddeiliad y swydd yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol o hyrwyddo dull cydgysylltiedig o ymdrin â pholisi bwyd, gyda dyhead ysgogol o ddarparu bwyd fforddiadwy ac iach sy'n economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol gynaliadwy i bobl nawr ac yn y dyfodol.

Ar ôl pwysu a mesur, os bydd y Bil yn methu, penderfynodd yr Aelodau argymhell creu bwrdd mewnol ond roeddent hefyd yn teimlo y gellid ystyried sefydlu swydd yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fel opsiwn eilaidd.

Strategaeth fwyd genedlaethol

Roedd llawer o randdeiliaid yn cefnogi'r gofyniad am strategaeth fwyd genedlaethol, yn bennaf i gydgysylltu'r meysydd polisi bwyd gwahanol, gan alw am ymgynghoriad eang wrth ei datblygu.

Er nad oedd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn cefnogi'r angen am ddeddfwriaeth, galwodd am strategaeth genedlaethol ar gyfer bwyd cynaliadwy, diogeledd bwyd, llesiant economaidd-gymdeithasol a mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, **rhybuddiodd** fod angen dysgu gwersi o strategaeth fwyd genedlaethol y DU, y dywedodd nad yw wedi'i gweithredu.

Tynnodd Synnwyr Bwyd Cymru sylw at alwad Comisiynydd blaenorol Cenedlaethau'r Dyfodol am strategaeth fwyd genedlaethol fel rhan o'i **chynllun pum pwynt ar gyfer yr argyfwng costau byw**.

Dywedodd Cymdeithas y Pridd y gallai dull ar lefel systemau sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad at fwyd ar draws Cymru. Dadleuodd dros osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r defnydd o ddulliau 'Rheoli Tir yn Gynaliadwy' (sy'n cysylltu â'r **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)**).

Dywedodd RSPB Cymru fod yn rhaid i gyrff cyhoeddus fod â dyletswydd i weithredu'r strategaeth (yn hytrach na 'rhoi sylw' iddi (adran 18(2)) er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y strategaeth. Galwodd sawl un am gysylltiad cliriach rhwng y strategaeth fwyd genedlaethol a'r cynlluniau bwyd lleol.

Dywedodd Maint Cymru a WWF y dylai'r strategaeth gael ei llywio gan egwyddorion amaeth-ecolegol ac ystyried effaith Cymru dramor. Nododd RSPCA Cymru fod yn rhaid i les anifeiliaid fod yn ffocws yn y strategaeth genedlaethol (yn ogystal â'r cynlluniau bwyd lleol).

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod pum mlynedd yn gyfnod rhy hir cyn yr adolygiad cyntaf o'r strategaeth.

Roedd y Gweinidog yn anghytuno â'r angen am strategaeth genedlaethol

Dywedodd y Gweinidog fod cyfres gynhwysfawr o bolisiau eisoes ar waith a'i bod yn cymryd camau i lenwi bylchau, e.e. y Strategaeth Bwyd Cymunedol. Fodd bynnag, **cyfaddefodd** yn ddiweddarach, er nad oedd yn meddwl bod angen strategaeth fwyd genedlaethol, os daw'n amlwg, yn ystod y gwaith craffu ar y Bil Bwyd, y gallai wneud rhywbeth iddi fel Llywodraeth, ac y gallai symleiddio polisi, ei bod yn barod iawn i edrych arni.

Tynnodd sylw at y grwpiau a'r systemau adrodd presennol yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod polisiâu'n cael eu cydgysylltu a bod y Gweinidogion yn cydweithio, e.e. ei gwaith gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Barn y Pwyllgor

Roedd y Pwyllgor yn gryf o blaid cynnwys strategaeth fwyd genedlaethol yn y Bil. At hynny, argymhellodd yr Aelodau, os bydd y Bil yn methu, y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi strategaeth fwyd genedlaethol fel y nodwyd yn y Bil ar sail anstatudol. Byddai hyn yn cynnwys ymrwymiad i gynnal yr ymgynghoriad a'r broses adolygu ar gyfer strategaeth o'r fath.

Cynlluniau bwyd lleol

Roedd llawer o randdeiliaid yn cefnogi'r gofyniad i gyrff cyhoeddus lunio cynlluniau bwyd lleol i ysgogi camau gweithredu'n lleol. Thema gyffredin oedd y byddai angen adnoddau priodol ar gyfer y cyfrifoldebau ychwanegol hyn.

Roedd PLANED am i gynlluniau bwyd lleol gael eu hintegreiddio gyda sefydliadau a phrosiectau cymunedol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau nad yw'r Bil yn gwneud digon i fanteisio ar adnoddau mudiadau cymunedol ar lawr gwlad a bod angen cydlunio.

Dywedodd PLANED fod y gofynion ymgynghori ar gyrff cyhoeddus wrth wneud eu cynlluniau bwyd lleol yn rhy wan. Awgrymodd y dylid ychwanegu gofyniad i ymgynghori â sefydliadau cymunedol sydd wrthi'n cynnal ac yn hyrwyddo prosiectau bwyd lleol at adran 18 o'r Bil. Dywedodd tîm Bil Peter Fox wrth y Pwyllgor nad oedd am i'r Bil fod yn rhy ragnodol o ran y gofyniad ymgynghori ar gyfer cynlluniau bwyd lleol. Dywedodd y tîm y bydd cyrff cyhoeddus yn naturiol yn ymgynghori.

Galwodd Cymdeithas y Pridd am gysoni â chynigion deddfwriaethol eraill (y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)) mewn perthynas â gofynion caffael cyhoeddus. Galwodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am gysoni â chynlluniau ac adroddiadau llesiant o dan Ddeddf LICD.

Hoffai Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru i'r amserlen ar gyfer cyhoeddi cynlluniau bwyd lleol (dwy flynedd) gael ei byrhau, a dywedodd y gallai'r drefn adroddiadau ar y cynlluniau hynny (dwy flynedd ar ôl eu cyhoeddi) fod yn fwy uchelgeisiol. Fodd bynnag, dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yr

amserlenni'n rhy fyr ac awgrymodd gylchoedd pum mlynedd i gysoni â chynlluniau llesiant Deddf LICD.

Croesawodd y byrddau iechyd lleol y cynlluniau bwyd lleol, gan gydnabod bod y sector cyhoeddus dan bwysau. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei fod eisoes wedi nodi mynediad at fwyd iach fel blaenoriaeth a'i fod yn gwerthfawrogi strwythur newydd a fyddai'n dod â rhanddeiliaid gwahanol ynghyd.

Roedd yr awdurdodau lleol yn pryderu fwy am adnoddau a'r gallu i ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau, gan nodi eu bod eisoes yn ceisio cyflwyno pryddau ysgol gynradd am ddim ac nad dyma'r amser cywir ar gyfer rhagor o ddyletswyddau. Roedd Peter Fox AS yn derbyn hyn ac awgrymodd newid yr amserlen ar gyfer datblygu o ddwy flynedd i dair blynedd drwy ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i leihau'r gorbryder rywfaint.

Nid oedd rhai'n cefnogi cyflwyno cynlluniau bwyd lleol

Nid oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gefnogol i gynlluniau bwyd lleol, gan ddadlau bod y pwerau i greu dull system o ymdrin â bwyd yng Nghymru yn rhai cenedlaethol yn bennaf.

Roedd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru o'r farn y gallai cynlluniau bwyd lleol fod yn rhy fiwrocraidd a chostus. Dywedodd, os byddant yn cael eu datblygu, y dylid ymgynghori â busnesau bwyd a diod a sefydliadau perthnasol eraill.

Roedd gan Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru bryderon y gallai'r cyrff cyhoeddus lunio cynlluniau bwyd lleol gwahanol iawn os ydynt yn blaenoriaethu elfennau gwahanol. Fodd bynnag, dywedodd Cymdeithas y Pridd y dylai'r Bil sicrhau bod cynlluniau bwyd lleol yn cael eu llunio yn ôl safon gyffredin, a dywedodd Maint Cymru y dylai'r strategaeth fwyd genedlaethol arwain y cynlluniau lleol.

Dywedodd rhai (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) y gallai fframwaith Deddf LICD gyflwyno rhai o nodau'r Bil yn lleol. Er enghraifft, gellid cryfhau'r cynlluniau ac asesiadau llesiant lleol i ystyried y system fwyd ymhellach. Tynnodd Synnwyr Bwyd Cymru sylw at ddiffyg dangosyddion bwyd o dan fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, o ganlyniad i hyn, nid yw materion bwyd yn cael eu cwmpasu yn asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, **dywedodd y Gweinidog y canlynol wrth yr Aelodau:**

Mae'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynhyrchu cynlluniau bwyd lleol o bosibl yn dyblygu'r hyn y gellir ei wneud drwy'r gofyniad i gynhyrchu cynlluniau llesiant lleol sy'n ffocws ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) dan arweiniad yr awdurdodau lleol a sefydlwyd o dan Ddeddf WFC. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn diwygio eu cynlluniau cychwynnol ac mae cyfle i gynyddu eu ffocws ar faterion bwyd.

Barn y Pwyllgor

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi cynnwys y cynlluniau bwyd lleol yn y Bil. Gobaith yr Aelodau yw y gallant adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn lleol, er enghraifft gan bartneriaethau bwyd lleol.

Hoffai'r Pwyllgor i gyrff cyhoeddus ymgynghori â sefydliadau llawr gwlad wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau bwyd lleol. Hoffai'r Aelodau i ofyniad i ymgynghori â'r grwpiau hyn, yn bennaf partneriaethau bwyd lleol, gael ei ystyried ar gyfnodau diwygio pellach os bydd y Bil yn mynd rhagddo.

Os bydd y Bil yn methu, hoffai'r Aelodau weld mwy o bwyslais ar fwyd yng nghynlluniau ac asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella caffael cyhoeddus a gwelliannau lleol i'r system fwyd. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn annog mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd bwyd drwy'r mecanweithiau gorau sydd ar gael o dan Ddeddf LICD. Gallai hyn fod drwy gynnwys dangosydd/ion llesiant newydd gyda cherrig milltir i gefnogi gwelliant i'r system fwyd.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi nod polisi'r Bil i "sicrhau y gwneir y gorau o'r manteision caffael cyhoeddus" a defnyddio caffael cyhoeddus i ysgogi gwelliant ym maeth rhai o'n pobl sydd fwyaf agored i niwed, wrth greu cyfleoedd hefyd i gynhyrchwyr lleol a chadwyni cyflenwi byrrach. Cred yr Aelodau y dylid diwygio adran 17 i gynnwys yr angen am gynlluniau bwyd lleol i gefnogi caffael bwyd lleol. Os bydd y Bil yn methu, cred yr Aelodau y dylid parhau â'r polisi hwn drwy lwybrau anneddfwriaethol.

4. Gwaith craffu gan bwyllgorau eraill y Senedd

Trafododd y Pwyllgor Cyllid oblygiadau ariannol y Bil. Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil yn unol â'i gylch gorchwyl.

Y Pwyllgor Cyllid

Roedd y Pwyllgor Cyllid yn siomedig gyda'r diffyg gwybodaeth am nifer o elfennau sy'n ymwneud â'r Bil, felly ni all ddod i gasgliad ynghylch a yw'r adnoddau'n ddigonol ac yn rhesymol er mwyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae'n gwneud nifer o argymhellion ac, os bydd y Bil yn mynd rhagddo, mae'n disgwyl i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sawl argymhelliad ar y Bil. Roedd y rhain yn cynnwys y dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi i gyrrff cyhoeddus ar sut y mae eu dyletswyddau o dan y Bil yn rhyngweithio â'u dyletswyddau presennol o dan Ddeddf LICD.

Nid oedd y Pwyllgor hwn yn teimlo bod cynnwys nod bwyd sylfaenol yn angenrheidiol o ystyried y manylion yn y disgrifiadau ar gyfer y nodau bwyd eilaidd. Er mwyn eglurder, awgrymodd y dylid dileu'r nod bwyd sylfaenol o'r Bil. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylid darparu eglurder hefyd ar ystyr rhai o'r cysyniadau a'r geiriad yn y nodau bwyd eilaidd ac felly sut y maent i'w dehongli'n gyson gan gyrrff cyhoeddus. Argymhellodd y dylid diwygio'r Bil fel bod y ddyletswydd i ymgynghori cyn diwygio'r disgrifiadau o'r nodau bwyd eilaidd yn gymwys i gyrrff priodol eraill, yn ogystal â Chomisiwn Bwyd Cymru.

Argymhellodd y dylid diwygio'r Bil i ymestyn y cyfnod o amser lle dylai corff cyhoeddus gyhoeddi cynllun bwyd lleol, o ddwy flynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym i dair blynedd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Argymhellodd y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu enghreifftiau o amgylchiadau lle gall Gweinidogion Cymru dynnu corff cyhoeddus oddi ar y rhestr o gyrrff cyhoeddus yn adran 22(1) o'r Bil.

Fel pwynt mwy cyffredinol, gwelodd y Pwyllgor deilyngdod ystyried datblygu proses fwy ffurfiol a thryloyw ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, ei swyddogion ac Aelodau o'r Senedd sydd wedi sicrhau caniatâd i fwrw ymlaen i gyflwyno Bil Aelod.

Roedd yn siomedig o glywed tystiolaeth, a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n Gyfrifol a'r Gweinidog, yr oedd yn teimlo ei bod yn awgrymu nad yw'r Gweinidog wedi ymgysylltu â manylion y Bil.

5. Y camau nesaf

Bydd y Senedd yn trafod egwyddorion cyffredinol y Bil (y ddadl Cyfnod 1) ar 24 Mai 2023.

Os bydd y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd yn symud ymlaen i Gyfnod 2. Fodd bynnag, cyn y gall trafodion Cyfnod 2 ddechrau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gynnig penderfyniad ariannol, yn cefnogi'r gwariant angenrheidiol i wireddu'r Bil.

Os bydd penderfyniad ariannol yn cael ei gynnig, a'i gytuno gan y Cyfarfod Llawn, gall trafodion Cyfnod 2 ddechrau ac mae gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyfle i gynnig gwelliannau a phleidleisio arnynt. Yna, byddai'r Bil yn destun gwelliannau pellach gan yr holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn pleidlais Cyfarfod Llawn derfynol ynghylch a ddylid pasio'r ddeddfwriaeth (Cyfnod 4).

Os na fydd y Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1, bydd y Bil yn methu yn dilyn y bleidlais honno. Os bydd y Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, ond mae Gweinidogion Cymru yn dewis peidio â chynnig penderfyniad ariannol, bydd y Bil yn methu chwe mis ar ôl y ddadl Cyfnod 1. Os bydd y Bil yn methu, mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn gobeithio y bydd yr argymhellion yn ei adroddiad yn gwella cynaliadwyedd y system fwyd heb y ddeddfwriaeth.